





Bro Glantwymyn



Tabl Cynnwys

Rhaglen Dyfodol Gwledig y Loteri Genedlaethol.....	2
Blaenoriaethau Cymunedol.....	3
1. Cydlynad Cymunedol.....	3
Buddion Canolfannau Cymunedol.....	5
2. Yr economi a chyflogaeth leol.....	6
3. Mynediad at wasanaethau a mwynderau.....	8
Amseroedd teithio at wasanaethau allwe.....	10
Gwasanaethau digidol.....	10
4. Y dyfodol ar gyfer pobl ifainc.....	11
Data Bro Glantwymyn.....	12
Heriau gwledig.....	13
Prosiectau Dyfodol Gwledig.....	14





Rhaglen Dyfodol Gwledig y Loteri Genedlaethol

Mae Dyfodol Gwledig yn brosiect a ariennir gan y Loteri Genedlaethol sy'n amcanu helpu peri i bethau da ddigwydd mewn cymunedau gwledig yng Nghymru. Cynhelir y rhaglen gan gonsortiwym sy'n cynnwys Severn Wye a Phartneriaeth BRO, ac y mae'n gweithio â naw cymuned gwledig gymwys ledled Cymru.

Mae Ward Glantwymyn Sir Powys yn un o'r ardaloedd a gynhwysir yn y rownd gyntaf. Mae Bro Glantwymyn yn ardal gwledig prin ei phoblogaeth a gwasgaredig ei hanheddau. Mae ei ffiniau'n cynnwys rhagor na 22,000 hectar.

Mae'r adroddiad hwn yn bennaf er budd preswylwyr a grwpiau lleol er mwyn cofnodi'r hyn a fynegwyd gan y gymuned hyd yn hyn, er y dylai fod o ddiddordeb i

asiantaethau cefnogaeth rhanbarthol, hefyd. Ni honna'r adroddiad fod yn gofnod pendant o farn paw'n yn yr ardal, ond bwriedir iddo fod yn fan dechrau ar gyfer rhagor o ymchwil a datblygu ymatebion i bynciau a chyfleoedd lleol a godir gan bobl sydd wedi dewis cyfrannu hyd at yn awr.


Mae'r blaenoriaethau isod, a fynegwyd gan y gymuned, wedi'u hamlygu er gwanwyn 2018 trwy ymgysylltiadau, trafodaethau, cyfarfodydd cymunedol, achlysuron a gweithdai.

Cyflawnwyd un o'r ymarferion cyfathrebu cymunedol allweddol trwy stiwdio straeon cymunedol Dyfodol Gwledig. Ymwelodd y 'Bws Straeon' â llawer o bentrefi ac fe'i cynlluniwyd i fod yn ofod creadigol, croesawgar lle gallai'r gymuned ddweud, gwrandao a chyfnewid straeon o'r gorffennol, a rhannu eu syniadau a'u barn ynghylch dyfodol Bro Glantwymyn. Mae sawl un o'r straeon a recordiwyd ledled y Ward ar gael ar Wefan y Map Straeon. <https://uploads.knightlab.com/storymaps/e9e41dd0c0a265033fe52c5ce2ca9ed4/cemmaes-cwm-llinau-and-glantwymyn/index.html>

Hyd yn hyn, mae pedair blaenoriaeth wedi codi o'r prosesau ymgysylltu, ac y mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ymchwilio i bob un ohonynt, ynghyd ag enghreifftiau o ymatebion pobl a data perthnasol. Mae'r pedair blaenoriaeth gymunedol allweddol yr ymchwilir iddynt isod yn cynnwys:

- 1 – Cydlynad Cymunedol
- 2 – Yr economi a chyflogaeth leol
- 3 – Mynediad at wasanaethau a mwynderau
- 4 – Y dyfodol ar gyfer pobl ifainc

Blaenoriaethau Cymunedol



1. Cydlyniad Cymunedol

Mae rhwydweithiau cymunedol cryfion ledled yr ardal. Mae'r rhwydweithiau a'r traddodiadau treftadaeth ddiwylliannol cryfion hyn, ynghyd â grwpiau cymunedol sydd wedi'u trefnu'n dda, yn darparu sylfaen gref ar gyfer adeiladu cefnogaeth gymunedol.



Mae cydlyniad cymunedol a phwysigrwydd cysylltiadau agos rhwng pobl yn y pentrefi o bwys mawr i bobl, gan nad yw cyn gryfed ag y bu. Mae cymhathiad pobl newydd sy'n symud i mewn i'r ardal yn bwysig. Mae'r diffyg siopau a mannau cyfarfod pobl yn gwaethygu'r broblem.



Gall canolfannau cymunedol fod yn ffordd wych o ddarparu gweithgareddau ar gyfer y gymuned gyfan a chyfleoedd i ddathlu traddodiadau diwylliannol a defnydd o'r Gymraeg. Mae rhagor na hanner y bobl sy'n byw yng Ngiantwymyn yn rhugl eu Cymraeg, 35% yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Powys a Chymru gyfan.

Cwm Llinau

- "Mae angen inni wneud y pentrefi'n gynaliadwy, tydi pobl ddim yn nabod ei gilydd, mae angen man lle gall pobl gydgyfarfod oherwydd ar adeg felly maent yn cydrannu syniadau. 'Dyw pobl ddim eisiau gweld newid yn digwydd a cholli'r Gymraeg. Dwi'n meddwl fod angen inni estyn allan at bobl i gynyddu diddordeb mewn dysgu'r iaith a gofyn iddynt a oes ganddynt ddiddordeb. Bydd rhaid inni greu canolfannau ym mhob un pentref megis lleoedd lle gall pobl gydgyfarfod."

Penegoes

- "Newidiodd yr ardal gryn dipyn yn y 60au gyda mewnfudo ac roedd y gymuned yn marw".
- "Roedden ni'n arfer cael barbeciw cymunedol bob blwyddyn, ond dydyn ni ddim wedi gwneud hynny ers tro. Nid oes lle i'r gymuned gwrdd yn rheolaidd".

Ceinws

- "Tydi pobl yn y pentref ddim nabod ei gilydd nac yn siarad â'i gilydd, mae'r holl awyrgylch wedi newid. Gan fod neuadd y pentref wedi'i dymchwel bellach, 'does yna unman i gyfarfod. Hoffwn weld pentref lle mae pobl yn dod at ei gilydd rhagor, mwy o ysbryd cymunedol. mae gennym y fath grŵp amrywiol o bobl yn byw yma rŵan, lleol ac o oddi allan, a chynifer o fedrau a doniau, gallwn ailfywiogi'r pentref drachefn".

Derwenlas


- "Pwysig ar gyfer y dyfodol: "Amrywiaeth ehangach o ddigwyddiadau yn y ganolfan gymunedol. Ar gyfer y gymuned - sut i gadw bywyd' diwylliannol 'traddodiadol ar ôl Brexit a sut i sicrhau datblygu cynaliadwy".
- "Nosweithiau gêm. Nosweithiau ffilm gan gynnwys hen ffilmiau lleol. Sesiynau crochenwaith".
- "Yn ogystal â lleoliad ar gyfer y digwyddiadau rheolaidd cyfredol mae angen i'r gymuned gofleidio'r neuadd yn fwy ar gyfer dathliadau lleol. Er mwyn gwneud hyn mae angen adnewyddu'r neuadd. Mae'r pwyllgor yn gwneud gwaith gwych .. ond mae angen buddsoddiad".
- "Mae'r neuadd yn cael ei defnyddio gan y Canllawiau, ac mae hefyd wedi gweld cynnydd yn ei ddefnydd ar gyfer digwyddiadau cymunedol teuluol. Mae hyn wedi helpu i godi proffil y neuadd".

Aberhosan

- "Hoffwn weld cymuned ffyniannus lle mae nifer o gymdeithasau gwahanol yn bodoli ac yn cwrdd yn rheolaidd yn y ganolfan gymdeithasol yn enwedig gan tawr ganolfan yn Aberhosan yw canolbwynt yr ardal a'r pentref".
- "Hoffwn weld cymuned gref, ffrwyth a nifenis yn Aberhosan; gyda'r Neuadd bentref yn ganolbwyllt a ffocus".

Cemmaes

- "Mae'n anodd cael nawdd i'r canolfan cymunedau".
- "Byddai'n hyfryd i bobl deimlo y gallant ddod allan o'u tai a chael cyfleoedd i eistedd ac i gyfarfod â phobl, cael sgwrs, a gardd gymunedol".
- "Byddai'n dda gweld rhagor o gymuned, gobeithio y bydd un yn y dyfodol".



Buddion Canolfannau Cymunedol

- Maent yn darparu lle diogel a chroesawgar ar gyfer pobl leol
- Yn datblygu gallueddau ac asedau (ffisegol a chymdeithasol) mannau gwledig.
- Yn meithrin trafodaeth ynghylch yr amryw heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig
- Yn datblygu cynigion cydsyniol ar gyfer delio â'r heriau hyn
- Yn safleoedd allweddol ar gyfer datblygu cynghreiriau ehangach rhwng pobl leol a chyrff gwladwriaethol a thrydydd sector lleol
- Mae canolfannau'n cynnwys datblygu seilwaith ffisegol a chymdeithasol fel ei gilydd
- Mae canolfannau cymunedol Bro Glantwymyn yn cynnwys neuaddau yng Nglantwymyn, Cemaes, Cwmlinau, Derwenlas, ac Aberhosan. Bu un yng Ngheinws, a gobeithir adfer un.



2. Yr economi a chyflogaeth leol



Tanlinellodd bobl bwysigrwydd yr angen am gyfleoedd gwaith, yn enwedig ar gyfer pobl ifainc, er mwyn diogelu cynaliadwyedd y pentrefi at y dyfodol.



Mae pobl Glantwymyn yn ddeallus ac yn fedrus, sy'n eu gosod mewn lle da i gael budd o gyfleoedd newydd ac ymateb i heriau a newid. Mae canran y rhai sydd â'r raddfa uchaf o gymhwyster, lefel 4 neu'n uwch, yn fwy yng Nglantwymyn (32%) nag ym Mhowys at ei gilydd (28%) na Chymru at ei gilydd (26%).



Mae 31% o'r bobl 16-74 oed yng Nglantwymyn mewn swydd amser llawn, o gymharu â 36% ledled Cymru. Mae rhagor o weithwyr llaw medrus yng Nglantwymyn (38%) na rhai heb fedr; sy'n fwy o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (25%). Mae canran y rhai heb gymwysterau (20%) yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Powys (26%) a Chymru (27%). Mae canran y rhieni sengl â swydd (45%) yn llawer uwch na chyfartaledd Powys (32%) a Chymru (25%).



Mae Brexit yn fygythiad sylweddol i ardal lle mae amaeth yn ddiwydiant cyflogaethol allweddol. Gallai colli marchnadoedd a chymorthdaliadau fod ag effaith fawr ar yr economi, bywoliaethau a chyfleoedd cyflogaeth lleol. Mae ei fygythiad i farchnadoedd a chymorthdaliadau yn fawr, ac ni ellir dweud fel arall. Mae arallgyfeirio amaethyddol yn her yn rhai rhannau o Gymru oherwydd y dirwedd fynyddig.



Cyflogir llawer gan y diwydiannau amaeth, coedwigaeth a physgota. Mae angen i gymunedau oleuo polisïau cenedlaethol a lleol. Gall ariannu cyd-drefnus llywodraethol ac allanol gyfeirio buddsoddi fel ag i esgor ar wasanaethau effeithiol a chefnogi'r economi leol.



Mae'n rhaid i bobl deithio ymhell at eu gwaith. Mae hyn hefyd yn effeithio ar gydlyniant cymunedol, oherwydd nad yw pobl yn eu gweld ei gilydd yn ystod y dydd. Mae perchnogaeth ceir yn fwy yng Nglantwymyn nad ym Mhowys a Chymru at ei gilydd, gyda'r daith at y gweithle'n 32.6km, ar gyfartaledd, yn 2011: rhagor na dwywaith cyfartaledd Cymru. Mae'r mwyafrif o bobl yn gyrru ar eu gwaith (688), ond nifer sylweddol yn gweithio yn neu o'u cartref yn bennaf (214).



Mae'r 'cylch marchnad llafur' yn cyfeirio at y ffordd y gallai cyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig mewn ardaloedd gwledig arwain at allfudiad gweithwyr medrus i ardaloedd trefol, sy'n gostwng graddfa medrusrwydd y gweithlu gwledig sydd, yn ei dro, yn llesteirio buddsoddi economaidd yn y dyfodol ac yn arwain at ddirywiad pellach yn y farchnad lafur leol.



Mae 309 aelwyd yn ennill llai na 60% o enillion canolrifol y DU, sef llai na £17, 000. Mae 165 aelwyd yn byw mewn 'Dlodi Tanwydd'. Mae 8% o blant Glantwymyn yn byw mewn tldi, o gymharu â 23% ledled Cymru. Mae 331 o blant yn byw yn 'Nengradd 5' ('Dengradd 1' yw'r 10% lleiaf amddifad / 'Dengradd 10' yw'r 10% mwyaf amddifad). Mae 9% o aelwydydd heb wres canolog.

Ceinws

- "Y pentref yn nodweddiadol o ogledd Cymru gyda'r dirwedd, y diwylliant a'r bobl. Mae'r bobl yn wahanol i'r rhai mewn trefi, cymunedau agos, a arferent weithio a byw â'i gilydd. Bu newidiadau mawrion. Arferai tua 50% o'r bobl weithio yng nghoedwig y pentref neu yn y dref gyfagos ym Machynlleth. Rwan mae pobl yn teithio llawer pellach.
- "Nid oes unman yn agos at gymaint o gyflogaeth nawr".

Aberhosan

- "Rydyn ni eisiau cymuned lewyrchus ac economi leol gref gyda gwaith i bobl ifanc a swyddi ar gyfer pob oedran".
- "Peidiwch â chanolbwyntio gwaith yn y trefi mawr".
- "Mae angen swyddi arnom i gefnogi pobl o bob oed".

Pentrefi amrywiol

- "Arferai fod yn fwrlwm o weithgaredd a diwydiant".
- "Mae angen mwy o gyfleoedd busnes bach arnom".
- "Stiwdios artistiaid fforddiadwy".
- (dyhead yn y dyfodol) "Gall pobl gael amser i gael cydbwysedd da rhwng y gwaith a'r cartref gyda chyfle lleol i fusnesau bach".
- Derwenlas, "Roedd y pentref yn arfer bod yn fwrlwm o weithgaredd yn seiliedig ar y glanfeydd ac ar adeiladu cychod, fel yr adlewyrchir yn y ffaith bod swyddfa bost, becws a gwasanaethau eraill yn arfer bod. Dim ond y dafarn sydd bellach. "

3. Mynediad at wasanaethau a mwynderau



Mae mynediad at wasanaethau a mwynderau'n destun pryder pwysig, yn enwedig oherwydd toriadau yng ngwasanaethau cyhoeddus. Mae'r genhedlaeth hon wedi gweld lleihad sylweddol yn nifer y siopau a'r banciau sydd ar gael.




Mae hyn yn cynnwys cau Canolfan Iechyd Bro Ddyfi a thrafnidiaeth gyhoeddus anaml. Mae gan 20% o bobl Glantwymyn salwch cyfyngol tymor hir, o gymharu â 23% ledled Cymru. Mae hanner y boblogaeth yn datgan eu bod yn iach iawn.



Mae'r diffyg band eang yn rhywbeth sy'n effeithio ar bob rhan o gymdeithas, nid yn lleiaf ar dwristiaeth a gwaith a chyfathrebiadau amaethyddol.



Mae agosrwydd Machynlleth megis canolfan wasanaethau yn bwysig. Mae angen trafodaethau ardal gynllunio ynghylch heriau cynnal gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau gwledig er mwyn canfod dulliau newydd o sicrhau bod cymunedau gwledig yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy.



Cwm Llinau

- "Bu newidiadau mawrion gyda'r blynyddoedd, rydym wedi colli llawer o wasanaethau, siopau gan gynnwys pobydd, dilledydd, cigydd a swyddfa'r post, a rŵan mae'r feddygfa'n cau. Bydd yr hen bobl yn dioddef".
- "Arferai fod yna siop, dau gapel, Swyddfa'r Post, siop esgidiau a phopty. Mae llawer wedi newid yn yr ardal, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg".

Penegoes

- "'Does yna ddim cymaint o waith yn yr ardal rŵan - arferai weithio ar y rheilffordd ac yn bostmon. Mae'r banciau'n cau rŵan; daw'n dref anghyfannedd. Roedd dwy siop ym Mhenegoes, ond dim siopau, na thafarn, nac eglwys rŵan".

Aberhosan

- "Dymunaf y bydd 'infrastructure' y neu le o ran y we, rhydwaith ffon bydd yn caniatáu i ni fyw, gweithio a maynthemuaedd yn yr ardal ac y bydd swyddi i gynnal pobl o bob oed".
- "Bod cefnogaeth i'r gymuned wledig - yr un cyfleusterau ag yn y trefi - mae ffonau signal band eang, symudol ar gael. Mae gwasanaethau'n fwy prin nag erioed; angen banciau, gallu cael apwyntiad meddyg yn hawdd".

Cemmaes

- "Sut rydym yn cadw pobl yn yr ardal, yn cadw'r siopau a'r banciau i fynd, beth a ddaw â phobl yma yn y dyfodol, a sut y cadwn ni'r iaith oni chadwn ni'r bobl ifanc?".
- "Arferai fod yna siopau'n gwerthu bwydydd a phob math o beth (gan gynnwys petrol), a siop esgidiau, gorsaf heddlu a siop paentio ac addurno, hefyd".
- "Bu colli gwasanaethau lleol, caeodd siop y pentref pan agorodd archfarchnadoedd yn y prif drefi, 'does yna ddim bysus a rŵan mae'r feddygfa'n cau. Efallai fod y pentref yn marw. Mae angen rhyw fath o gludiant cymunedol, a man parcio hefyd".

Abercegir

- "Adeiladwyd Abercegir ym 1841 ar gyfer y melinau a'r mwyngloddiau; roedd yno siopau, efail, capel a thafarn".

Ceinws

- "Lle diogel i fyw gyda chysylltiadau trafndiaeth da. Byddai gwell tai yn gaffaeliad i'r gymuned".
- "Parcio ffurfiol mwy gwell".
- "Ar gyfer y dyfodol byddai'n dda gweld rhai tai bach yn cael eu hadeiladu ar y gwersyll, fel y gall y bobl ifanc gael yr opsiwn i aros yn hytrach na symud i ffwrdd".

Bro Glantwymyn - Amseroedd teithio at wasanaethau allweddol

Amser teithio ar gyfartaledd (munudau) at y gwasanaethau allweddol agosaf, o gerdded neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Post Office	Library	GP	Pharmacy
86.0 (mins)	132.0 (mins)	103.0 (mins)	131.0 (mins)
Wales average = 0.0 (mins)	Wales average = 33.5 (mins)	Wales average = 26.6 (mins)	Wales average = 26.7 (mins)
Primary School	Secondary School	Food shop	Leisure Centre
62.0 (mins)	98.0 (mins)	106.0 (mins)	134.0 (mins)
Wales average = 16.4 (mins)	Wales average = 35.4 (mins)	Wales average = 18.2 (mins)	Wales average = 40.0 (mins)



Gwasanaethau digidol

Connections with low broadband speeds (less than 2 Mbit/s)	Average broadband download speed (Mbit/s)	Average broadband upload speed (Mbit/s)
108	7.86	0.97
16.5% (Wales average = 4.6%)	Wales average = 29.34	Wales average = 3.44
Source: Ofcom 2016		



4. Y dyfodol ar gyfer pobl ifainc



Ym mhob pentref, trafodwyd yr angen am gyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau ar gyfer pobl ifainc. Pobl ifainc 0-15 = 17%; 16-24 = 8%; Oedolion 25-44 = 22%; 45-64 = 32%; 65-84 = 18%; 85+= 3%.



Gall toriadau i wasanaethau a diffyg mwynderau a gweithgareddau wneud yr ardal yn llai deniadol i bobl ifainc aros yno, gan effeithio ar gynaliadwyedd cymunedol y fro. Mae diffyg cartrefi fforddiadwy'n gwaethygu problemau megis allfudiad yr ifainc.



Yn rhai achosion, mae'r gwaith sy'n orau gan bobl ifainc yn newid. Nid pawb sydd eisiau dilyn rhigolau cyflogaeth traddodiadol. Gallai hyn gynyddu gyda'r newidiadau yn nyfodol gwaith y rhagwelir y bydd y 4ydd Chwyldro Diwydiannol yn eu hachosi, gyda chynnydd awtomeiddio a thechnoleg ddigidol.



Mae angen darparu ar gyfer galluogi a chynnal amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth yn agosach at adref. Gall canolfannau busnes a gweithdai ddarparu mannau lle gall busnesau bychain gydweithio a rhannu syniadau ac offer.



Mae'r 'cylch demograffig', lle mae dwysedd poblogaeth is, cyfran uwch o breswylwyr oedranus, ac allfudiad pobl ifainc yn arwain at gyfraddau geni isel, oll yn effeithio er gwaeth ar yr economi.

Glantwymyn

- "Beth fydd yn dod â phobl yma yn y dyfodol a sut ydyn ni'n cadw'r iaith os na fyddwn ni'n cadw'r bobl ifanc?"

Ceinws

- "Mae angen lle ar bobl ifanc yn eu harddegau i gymdeithasu. Efallai'n gysylltiedig â digwyddiadau sgiliau yn ogystal â digwyddiadau cymdeithasol (anffurfiol). Cyfleuster cymunedol a rennir sy'n ofod hyblyg".
- "Mae yna lawer llai o swyddi ar gael i bobl ifanc, felly mae'n rhaid iddyn nhw adael yr ardal. Mae'n bwysig ein bod ni'n gwneud pethau i'r plant ifanc oherwydd bod ganddyn nhw eu bywydau o'u blaenau".

Aberhosan

- "Economi leol gref i gadw pobl ifanc yma".
- "Mae'n hanfodol cael gwaith i'n pobl ifanc".
- "Hoffwn weld mwy o bobl ifanc yn yr ardal a mynychu'r ganolfan".

Data Bro Glantwymyn

2,040

Poblogaeth

44

Oedran
cyfartalog

900

Aelwydydd

230

Cartrefi
pensiynwr

1,255

Poblogaeth
oedran
gweithio

214

Gweithio o
gartref

688

pobl yn gyrru i'r
gwaith

33km

pellter
cyfartalog a
deithiwyd i'r
gwaith

Heriau gwledig

Yn aml cuddir a bychenir caledi materol yng nghefn gwlad o fewn cyd-destun byw mewn tirweddau prydfferth a chymunedau hunan-ddibynnol.

Mae sawl achos sy'n cyfrannu at heriau sy'n wynebu cymunedau cefn gwlad, a allant gynnwys:

- Ansicrwydd swyddi, enillion bychain a gwaith tymhorol rhan-amser
- Diffyg gwasanaethau, oherwydd bod llai o bobl yn byw yng nghefn gwlad i gefnogi a chynnal gwasanaethau
- Trafnidiaeth gyhoeddus anaml
- Diffyg cartrefi fforddiadwy
- Diffyg cyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus
- Band eang gwael
- Diffyg cyflogwyr ar raddfa fawr

Effeithiau

- Premiwm gwledig – costau byw uwch
- Tlodi tanwydd
- Diffyg cartrefi fforddiadwy
- Diffyg cyfleoedd cyflogaeth
- Trafferth talu biliau
- Ynysu cymdeithasol ac amddifadedd gwledig
- Cyfradd fwy o gyflogau isel ynghyd â chostau byw uwch yng nghefn gwlad yn cynyddu perygl tlodi ymysg y rhai sydd â gwaith

Mae angen sylfaenu strategaethau ymladd tlodi yng nghefn gwlad ar brofiadau'r bobl sy'n byw yno. Mae egwyddorion ymyraethau ar sail gymunedol yn cynnwys:


- Adeiladu ar asedau, gwybodaeth a gallueddau
- Datblygu cynghreiriau cymunedol
- Ennill adnoddau, gwybodaeth a medrau
- Creu cydweithrediadau strategol

Prosiectau Dyfodol Gwledig

Dymuna'r Loteri ariannu prosiectau sy'n canolbwyntio ar 'helpu pobl sy'n cael trafferth i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol neu gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, sydd ddim ag amgylchiadau byw rhesymol neu a allent fod wedi'u hynysu rhag eraill'.

Nid yw prosiectau Dyfodol Gwledig ym Mro Glantwymyn wedi'u cyfyngu i rai sy'n cefnogi'r canlynol, ond gallent eu cynnwys:

1. Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, gan gynnwys cynyddu gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol.
2. Cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, megis canolfannau busnes, cyngor, hyfforddiant neu ddileu rhwystrau rhag cael gwaith; trwy ofal plant, er enghraifft.
3. Cyfleusterau cymunedol megis neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol, gan gynyddu mannau cyfarfod a chyfleoedd i gyflawni gwasanaethau. Creu gweithgareddau er mwyn lleihau unigrwydd cymdeithasol, er enghraifft.



“Ar y cyd â dulliau mynd i’r afael â thlodi gwledig tan arweiniad cymunedol, mae angen ymyraethau polisi ehangach, aml-raddol, cyfunol a strategol mewn meysydd megis datblygu economaidd, darpariaeth cartrefi fforddiadwy, seilwaith trafnidiaeth, cysylltedd digidol a darpariaeth gwasanaethau hanfodol eraill.”

Paul Milbourne, Prif Ysgol Caerdydd, 2018.